



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Services

Protocol rhwng

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

a

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru

Protocol rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru

Adran 1 Cyflwyniad

1.1 Diben

1.1.1 Mae'r protocol hwn yn amlinellu'r trefniadau gweithio rhwng Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) trwy:

- sefydlu'r sylfaen cyfreithiol ar gyfer dyletswyddau rheoleiddiol AGGCC,
- esbonio sut y bydd AGGCC yn cyflawni'r dyletswyddau hynny, ac
- esbonio sut y bydd AGGCC a GGD yn cydweithio

1.2 Sefyllfa Gyfreithiol

1.2.1 Ar 01 Ebrill 2002, daeth newidiadau i rym yn y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoleiddio gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd i blant dan 8 mlwydd oed yng Nghymru. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoleiddio oddi wrth yr awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) gan Ran XA Deddf Plant 1989, fel y'i cyflwynwyd gan Ran VI Deddf Safonau Gofal 2000 (y Ddeddf). Cyflawnwyd y swyddogaethau trwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru hyd at 01 Ebrill 2007 pan drosglwyddwyd y swyddogaethau i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

1.2.2 Mae'r un rhan o'r Ddeddf yn caniatáu i LICC wneud rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal dydd a gwarchod plant dan 8 mlwydd oed. Nid yw'r rheoliadau na'r safonau yn hepgor yr angen i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd gydymffurfio â'r holl ddeddfau eraill a orfodir gan ystod o awdurdodau eraill.

1.2.3 AGGCC sy'n gyfrifol yn statudol am sicrhau bod gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant ifanc yn addas, a'u bod yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau. Mae gan AGGCC ystod o bwerau er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau rheoleiddiol hyn. Caiff AGGCC:

- ganiatáu, gwrthod, atal neu ddileu cofrestriad,
- gosod, diddymu neu amrywio amodau cofrestriad,
- caniatáu neu wrthod ceisiadau am amrywiadau, ac
- erlyn darparwyr am droseddau penodol dan y Ddeddf a'r Rheoliadau.

1.2.4 Mae awdurdodau lleol yn cadw – yn ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 a Chylchlythyr 13/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru "Canllawiau i Awdurdodau Lleol: Deddf Gofal Plant 2006" – cyfrifoldebau statudol megis rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau gofal dydd a gwarchod plant sydd ar gael, hyfforddi gweithwyr gofal plant, rhoi cymorth i blant mewn angen a gweithio gydag asiantaethau eraill i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin.

1.2.5 Mae AGGCC yn sefydlu perthynas weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill trwy brotocolau.

1.2.6 Mae AGGCC a GGD yng Nghymru yn cefnogi'n llawn, ac yn cydymffurfio â'r Egwyddorion Diogelu Data fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998. Mae'r ddwy ochr yn ystyried ei bod yn bwysig iawn trin gwybodaeth bersonol mewn modd cyfreithlon a chywir o ran cyflawni eu swyddogaethau ac o ran cynnal cyfrinachedd pob unigolyn sy'n dod mewn cysylltiad â hwy. Bydd y ddwy ochr yn rhannu gwybodaeth dim ond pan fo hynny'n unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

1.2.7 Mae'n rhaid i AGGCC a GGD weithredu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Deddf Hawliau Dynol 1998. Bydd y ddwy ochr yn rhannu gwybodaeth dim ond pan fo hynny'n unol â deddfwriaeth Hawliau Dynol.

1.2.8 Bydd AGGCC yn parhau i adolygu pob protocol a'u diwygio mewn cytundeb â GGD, pan fo angen gwneud hynny.

1.3 Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwarchod Plant a Gofal Dydd

1.3.1 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006 yw'r rheoliadau perthnasol.

1.3.2 Mae chwe gwahanol gyfres o Safonau Gofynnol Cenedlaethol a wnaed gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002– un ar gyfer pob gwasanaeth:

- Gofal dydd llawn
- Gofal dydd sesiynol
- Crèches
- Gofal y tu allan i'r ysgol
- Gwarchodwyr plant
- Darpariaeth chwarae mynediad agored

1.3.3 Mae'r safonau hyn yn nodi'r canlyniadau a ddisgwylir ar gyfer plant a'u rhieni, ac yn dangos yr hyn y mae'n rhaid i bob darparwr ei gyflawni er mwyn bodloni pob safon. Maent yn cynnwys wyth adran:

- Dewis gwasanaeth
- Cynllunio ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol
- Ansawdd bywyd a dysgu
- Ansawdd gofal a thriniaeth
- Staffio
- Cynnal a rheoli'r gwasanaeth
- Cwynion ac amddiffyn
- Yr amgylchedd ffisegol

1.3.4 Mae atodiadau'n nodi'r gofynion ychwanegol pan ddarperir gwasanaeth gofal dros nos, neu ar gyfer plant dan ddwy flwydd oed er enghraifft.

1.3.5 Mae AGGCC yn defnyddio ymagwedd gymesur at reoleiddio, gan gydweddu datganiad o ddiben y darparwr â'r fframwaith rheoleiddio sy'n ystyried anghenion y defnyddiwr gwasanaeth. Bydd AGGCC yn cyfeirio at y safonau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chofrestru, cynnal arolygiadau ac ystyried camau gorfodi.

1.4 Cyd-destun Cyfreithiol Penodol y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

1.4.1 Mae Adran 27 Deddf Gofal Plant 2006 yn ehangu'r ddyletswydd presennol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am ofal plant a gwasanaethau cysylltiedig. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau naill ai bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i rieni plant a phobl ifanc hyd eu bod yn 20 mlwydd oed ynglŷn â gwasanaethau lleol a ddarperir, neu eu bod yn gallu eu cyfeirio ati, yn ogystal â'u cyfeirio at ffynonellau cymorth cenedlaethol. Bydd yn rhaid i wybodaeth fod ar gael i dadau yn ogystal â mamau; i grwpiau difreintiedig a grwpiau wedi'u heithrio; ac i rieni nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

1.5 Diffiniad o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

1.5.1 Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r ystod lawn o wasanaethau, adnoddau a materion gofal plant, yn unol ag anghenion y plant a'u teuluoedd, gofalwyr, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol a llywodraeth leol a chenedlaethol a'u hasiantaethau.

1.6 Swyddogaethau a chyfrifoldebau Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

1.6.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod GGD yn hanfodol o ran sicrhau bod gwybodaeth yn ymwneud â gofal plant ar gael. Mae GGD yn sicrhau bod rhieni ac unigolion eraill sy'n ymholi yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau o ansawdd da ynglŷn â gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar, ac ynghylch cyrsiau cyn-cofrestru a hyfforddi mewn gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol cenedlaethol.

1.6.2 Dylai GGD ystyried yr angen i gael gafael ar wybodaeth trwy ymweld yn bersonol, defnyddio'r ffôn, gwefan neu e-bost. Dylai cyfeiriadau clir at wybodaeth fod ar gael drwy brif wasanaethau gwybodaeth yr awdurdod, megis llyfrgelloedd, switsfyrddau ffôn a phrif wefan yr awdurdod. Dylai ddarparu gwasanaeth 24 awr trwy ddefnyddio gwasanaeth ateb. Ar y wefan, dylai chwilio am "gofal plant" arwain at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Dylai dolennau fod ar gael i wefan y Cynulliad ac i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eraill, yn enwedig y rhai hynny sydd o fewn yr

ardal teithio i'r gwaith gyfagos. Mae'n holl bwysig i adolygu gwasanaethau'r we'n rheolaidd er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth gyfredol.

1.6.3 Bydd GGD yn cadw mewn cysylltiad agos gyda swyddfa ranbarthol berthnasol AGGCC a darparwyr gofal plant lleol er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf cynhwysfawr ynglŷn â phob darparwr cofrestredig.

1.6.4 Dylai GGD hefyd roi cymorth i bobl sydd â diddordeb mewn darparu gofal dydd neu mewn bod yn warchodwyr plant. Dylent ddarparu gwybodaeth fras am ofynion cofrestru, ac ar gyfer darpar warchodwyr plant, dylent roi gwybodaeth ynglŷn â'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy grantiau cychwynnol i warchodwyr plant, ac esbonio bod AGGCC yn darparu sesiynau briffio. Dylent ddarparu cyfeiriadau at ffynonellau newydd o ran cymorth i fusnes. Dylent hefyd ddarparu gwybodaeth berthnasol i bobl sy'n chwilio am hyfforddiant mewn addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant neu waith chwarae.

Adran 2 Trefniadau Gweithio

2.1 Yr hyn y bydd AGGCC yn ei wneud ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

2.1.1 Bydd AGGCC yn darparu gwybodaeth electronig i GGD bob mis ynglŷn â'r holl ddarparwyr cofrestredig. Bydd hyn yn cynnwys manylion am ddarparwyr sydd newydd gofrestru a darparwyr sydd wedi'u diddymu oddi ar y gofrestr.

2.1.2 Rhoddir gwybodaeth ynglŷn â lleoliadau cofrestredig i'r cyhoedd yn unol â pholisi hysbysu'n agored AGGCC. Ni fydd rhifau tystysgrif cofrestru yn cael eu rhoi i'r cyhoedd.

2.1.3 Bydd AGGCC, o fewn un diwrnod gwaith, yn darparu manylion i GGD am gofrestriad unrhyw ddarparwyr y mae'n bwriadu ei ddileu neu ei atal. Bydd AGGCC hefyd yn hysbysu GGD am unrhyw erlyniadau llwyddiannus yn erbyn darparwyr. Bydd hysbysu'n gynnar fel hyn yn galluogi:

- GGD i gymryd camau yn ddi-oed i osgoi hysbysebu gwasanaethau, neu ddarparu gwybodaeth, ynglŷn â darpariaeth neu ddarparwyr sydd wedi'u dileu
- GGD i hysbysu eu Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP) ac adrannau yn eu hawdurdod lleol, am unrhyw ddarparwr sydd wedi'i atal dros dro, ei ddileu, neu sydd wedi'i erlyn yn llwyddiannus gan AGGCC
- GGD ac EYDCP i gynorthwyo rhieni i ddod o hyd i ddarpariaeth addas amgen.

2.1.4 .Pan fo rhieni neu ofalwyr yn cysylltu ag AGGCC am wybodaeth ynglŷn â pha wasanaethau gofal plant sydd ar gael, bydd AGGCC yn darparu'r wybodaeth sydd ar gael yn ei Chyfeirlyfr o Wasanaethau Rheoledig, ynghyd â chynghori'r rhiant neu'r gofalydd i gysylltu â'r GGD lleol i gael mwy o gymorth o ran dewis gwasanaeth lleol addas.

2.1.5 Bydd AGGCC yn cyngori unrhyw ymgeiswyr gwarchod plant neu ofal dydd i gysylltu â'u GGD neu awdurdod lleol am wybodaeth ynghylch sesiynau cyn-cofrestru, cyngor am hyfforddiant, neu unrhyw gymorth arall a gynigir gan yr awdurdod lleol a'r EYDCP.

2.1.6 Bydd swyddfeydd rhanbarthol AGGCC yn ateb, o fewn un diwrnod gwaith os yn bosib, unrhyw ymholiadau dilys gan GGD. Mae'n rhaid i unrhyw ymholiadau ynghylch cyfeiriad cartref gwarchodwr plant neu unrhyw ddarparwr gael eu hanfon yn ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost). Ni chaiff AGGCC ddatgelu'r wybodaeth hyd y cadarnheir bod y cais wedi dod o GGD. Ni chaiff AGGCC ddatgelu cyfeiriad unigolion cofrestredig, gan gynnwys gwarchodwyr plant, i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau eu diogelwch. Caiff AGGCC ddarparu manylion am ddarparwyr i adrannau eraill y llywodraeth ac i awdurdodau a sefydliadau lleol, er enghraifft, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i wasanaethau amddiffyn plant.

2.1.7 Bydd AGGCC yn darparu copïau o adroddiadau arolygu ar Wasanaethau Gofal Dydd i Blant Dan 8 mlwydd oed i GGD ar gais yn unol â 2.1.6.

2.1.8 Bydd AGGCC yn darparu cyflenwad o gopïau i GGD unigol, o unrhyw ddeunydd llawn gwybodaeth a luniwyd, er enghraifft taflenni gwybodaeth ar gyfer darparwyr a rhieni.

2.2 Yr hyn y bydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei wneud ar gyfer AGGCC

2.2.1 Bydd GGD yn ailgyfeirio unrhyw rieni neu unigolion eraill sydd â phryder neu gŵyn ynglŷn â darparwr gofal plant neu ei ddarpariaeth at y swyddfeydd rhanbarthol perthnasol. Os nad yw'r person sydd â'r gŵyn neu'r pryder yn dymuno gwneud galwad ffôn arall, bydd GGD yn nodi manylion y sawl sy'n galw ac yn ysgrifennu crynodeb byr o'r gŵyn ar y ffurflen atgyfeirio cŵyn/pryder. Anfonir hon trwy ffacs i'r swyddfa ranbarthol. Yna, bydd AGGCC yn cysylltu â'r achwynydd.

2.2.2 Bydd GGD hefyd yn cyfeirio cwynion ysgrifenedig ynglŷn â materion cofrestru at swyddfeydd rhanbarthol AGGCC, ynghyd â hysbysu'r achwynydd bod hyn wedi'i wneud.

2.2.3 Wrth ymdrin â cheisiadau gan rieni/gofalwyr ynglŷn â newid darparwr gofal dydd, mae'n rhaid i GGD fod yn ymwybodol o'r rhesymau am y cais ynghyd ag unrhyw bryderon sylfaenol, ac mae'n rhaid iddynt hysbysu'r swyddfa ranbarthol AGGCC berthnasol.

2.2.4 Caiff GGD gyflwyno unrhyw ddeunydd llawn gwybodaeth a gynhyrchir gan AGGCC i rieni, pobl sy'n dymuno cychwyn gwasanaethau gofal plant neu unigolion eraill sy'n ymholi.

2.2.5 Bydd GGD yn cynnwys gwybodaeth briodol, y cytunwyd arni'n flaenorol, ynghylch AGGCC yn eu deunydd hysbysebu eu hunain. Bydd GGD

hefyd yn hysbysu defnyddwyr eu gwasanaethau am wefan AGGCC:
www.aggcc.org.uk

2.2.6 Bydd GGD yn helpu AGGCC i dynnu sylw at y ffaith y dylid annog rhieni sy'n penderfynu defnyddio gwasanaethau gofal dydd i leoli eu plentyn dim ond gyda darparwr cofrestredig, a dylai'r rhieni ofyn am gael gweld y dystysgrif cofrestru yn ystod yr ymweliad cyntaf.

2.2.7 Bydd GGD yn atgoffa darparwyr am eu dyletswydd i hysbysu AGGCC am unrhyw gynlluniau ynghylch ehangu'r ddarpariaeth, newid o ran defnydd y safle, datblygu gwasanaethau presennol, newidiadau i'r staff a newidiadau yn nifer neu oedran y plant y gofelir amdanynt.

2.2.8 Bydd GGD yn diweddarau eu systemau gwybodaeth eu hunain o ran unrhyw newidiadau i fanylion cofrestru darparwyr o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn y wybodaeth gan AGGCC. Dylai GGD nodi yn eu systemau gwybodaeth eu hunain, o fewn un diwrnod gwaith, unrhyw ddilead, penderfyniadau i ddileu, erlyniadau llwyddiannus ac ataliadau.

2.2.9 Bydd GGD yn hysbysu AGGCC os ydynt yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth sy'n gweithredu heb gofrestru, ac unrhyw ddarparwyr cofrestredig sy'n ymddangos eu bod yn gweithredu y tu allan i amodau eu cofrestriad.

2.2.10 Bydd GGD yn cyfeirio unrhyw ymholiadau a derbynnir gan y cyfryngau ynghylch darpariaeth pan fo AGGCC wedi cymryd camau gorfodi at Swyddfa Wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.3 Yr hyn y bydd Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei wneud fel rhan o'r swyddogaethau a gedwir gan yr awdurdod lleol

2.3.1 Pan fo awdurdodau lleol yn dewis gwneud hynny, bydd GGD yn darparu gwybodaeth ynghylch unrhyw sesiynau cyn-cofrestru a chynghor ynglŷn â hyfforddiant a drefnir gan yr awdurdod lleol a'r EYDCP, i ddarparwyr presennol, ac i'r rheini sy'n dymuno cael eu cofrestru'n warchodwyr plant neu'n darparwyr gofal dydd.

2.4 Yr hyn na chaiff AGGCC ei ddatgelu i'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

2.4.1 Ni chaiff AGGCC ddatgelu i GGD unrhyw wybodaeth neu weithgaredd casglu tystiolaeth a allai amharu ar y broses reoleiddio neu ar unrhyw gamau gorfodi posibl.

10 Gorffennaf 2008